**Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cod Ymarfer 16: Y System Cynrychiolydd Ysgol**
Gan: Rob Samuel a Lucy Lloyd
Dyddiad: Tachwedd 2025

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol).* |
| Nod Cod Ymarfer y Cynrychiolwyr Ysgol yw sicrhau bod proses glir, dryloyw a chyson ar waith ar gyfer y System Cynrychiolwyr Ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cod 16 |
| **Arweinydd y Project** | Rob Samuel a Lucy Lloyd |
| **Tîm y Project** | Tîm Llais Myfyrwyr Undeb Bangor |

| **Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?** |
|---|
| *O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw:* ***oedran, anabledd, ailbennu rhywedd (Traws), beichiogrwydd a mamolaeth, hil (ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw (rhywedd)*** *a* ***chyfeiriadedd rhywiol*** *ac mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol i ofalwyr. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.* |

| **Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** | **Tystiolaeth** | **Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)** |
|---|---|---|
| **Dileu Gwahaniaethu**<br><br>• *A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchodedig?* | Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i bob Myfyriwr.<br>Myfyrwyr yn cael Mynediad at y System Cynrychiolwyr: Nod y System Cynrychiolwyr Ysgol yw sicrhau y gall unrhyw fyfyriwr roi adborth i'w Cynrychiolydd Ysgol. Anogir cynrychiolwyr ysgolion i ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau i gasglu adborth, er mwyn sicrhau bod anghenion gwahanol fyfyrwyr yn cael eu hystyried, gan gynnwys ffurflen 'Adborth i'ch cynrychiolwyr' Undeb | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| | Bangor, sydd ar agor i unrhyw fyfyriwr ei defnyddio. Anogir cynrychiolwyr yn benodol i gasglu adborth gan grwpiau o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac i hyrwyddo materion a allai fod yn cael eu codi gan nifer fach o fyfyrwyr yn unig oherwydd bod y myfyrwyr hynny mewn cymuned leiafrifol. Mae gan gyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr eitem benodol ar yr agenda i ofyn a oes unrhyw adborth gan fyfyrwyr â nodweddion gwarchodedig.<br>Myfyrwyr yn dod yn Gynrychiolwyr Ysgol: Gall unrhyw fyfyriwr ddod yn Gynrychiolydd Ysgol waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Mae Undeb Bangor yn cydnabod y gallai rhai myfyrwyr (gan gynnwys y rhai â rhai nodweddion gwarchodedig) ei chael hi'n fwy heriol ymrwymo amser i rolau gwirfoddol, fel dod yn Gynrychiolydd Ysgol, felly rydym yn cynghori pob myfyriwr bod y rôl yn hyblyg, na ddylai gael blaenoriaeth dros eu hastudiaethau, a'u bod yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'r rôl os oes angen. | |
| **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**<br><br>• *A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig?*<br>• *A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol a/neu rhwng grwpiau gwarchodedig?* | Mae'r system Cynrychiolydd Ysgol yn un ffordd o glywed lleisiau myfyrwyr, yn ogystal â systemau eraill y mae Undeb Bangor yn eu defnyddio. Mae Undeb Bangor yn trefnu 'sesiynau gwrando' rheolaidd ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr gan gynnwys Myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifol, Myfyrwyr LHDTC+, Myfyrwyr Anabl, Myfyrwyr Niwrowahanol, Myfyrwyr Rhyngwladol, Rhieni, Gofalwyr a Myfyrwyr Hŷn, Myfyrwyr Cymraeg a Myfyrwyr PHD. Nodau'r sesiynau hyn yw creu mannau diogel i fyfyrwyr siarad yn gyfrinachol â staff | Cadarnhaol |

| | | |
|---|---|---|
| | Undeb Bangor am unrhyw broblemau maent yn eu hwynebu neu syniadau ymgyrchu a allai fod ganddynt, a hefyd i gefnogi'r myfyrwyr hyn i ddefnyddio prosesau presennol, megis y ffurflen 'Adborth i'ch Cynrychiolwyr Ysgol'. Gallai hyn gynyddu cyfranogiad gan y grwpiau hyn. | |
| **Hybu Perthynas Dda**<br><br>• *A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?*<br>• *Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?* | Creu Amgylchedd Tîm Cefnogol: Yn ystod hyfforddiant Cynrychiolwyr Ysgol, mae Undeb Bangor yn pwysleisio'r angen i gynrychiolwyr weithio gyda'i gilydd fel tîm, a bod pob cynrychiolydd yn dod â'i brofiadau a'i sgiliau ei hun i'r rôl. Anogir cynrychiolwyr i feddwl am sut y gallant ymdrin â'r rôl mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u cryfderau a'u diddordebau unigol. Rydym hefyd yn rhoi gwybod i bob cynrychiolydd eu bod yn gallu cymryd amser i ffwrdd o'r rôl os oes angen, ond i roi gwybod i gynrychiolwyr a staff eraill os yw hyn yn digwydd, fel y gellir gwneud trefniadau eraill lle bo angen. Nod hyn yw creu amgylchedd tîm deallus lle mae cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi manteision tîm amrywiol.<br>Lle mae myfyrwyr yn pryderu ynghylch ymrwymiad y rôl, rydym yn cynnig trafodaethau ychwanegol ynghylch sut y gall y rôl gyd-fynd â'u hanghenion. Pan fydd cynrychiolwyr yn ymddieithrio o'r rôl, neu ddim yn mynychu cyfarfodydd, y cam cyntaf yw i Undeb Bangor gysylltu â'r cynrychiolydd a gwirio gyda'r cynrychiolydd i sicrhau y gellir cynnig unrhyw hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol, neu i ddarganfod a oes angen i'r cynrychiolydd gymryd cam yn ôl o'r rôl. | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Undeb Bangor wrthi'n gweithio ar ddatblygu adnoddau a chanllawiau pellach i gynrychiolwyr ynghylch hygyrchedd a chynwysoldeb, a allai gael eu cynnwys yn y Llawlyfr Cynrychiolwyr, neu eu cyflwyno drwy ddulliau eraill. | |

| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
|---|---|
| **Does dim angen newid mawr**<br><br>*Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith anffafriol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.* | Y |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.**<br><br>*Nodi'r addasiadau a wneir i ddiddymu'r rhwystrau sydd wedi eu nodi yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.* | |
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau negyddol neu y caiff cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb eu colli.**<br><br>*Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau anffafriol.* | |
| **Aros ac ailfeddwl**<br><br>*Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.* | |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol.<br>Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a gwneir unrhyw addasiadau rhesymol.<br>Caiff y weithdrefn hon ei hadolygu bob 3 blynedd gan Undeb Bangor. |

| **Cyhoeddi** |
|---|
| Cyhoeddir yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn *Cyhoeddir yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn* ochr yn ochr â'r Weithdrefn *ar wefan Prifysgol Bangor* *https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.en* |